Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 13eg o Ragfyr am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr –John Owen (JO), Gwyn D Roberts (GR), Lisbeth James (LJ), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), Dewi Ellis (DE) ar Cyng. Aled Jones [cyrraedd 9pm] (AJ).

1. **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts, Sianelen Pleming, William Jones.

2. **Hysbysebiadau y Cadeirydd –** Croesawyd pawb gan Gadeirydd y cyfarfod Lisbeth James yn absenoldeb y Cadeirydd.

3. **Datgan Diddordeb –** Neb
   Adolygwyd proses y Cyngor. *Y Clerc i ofyn i'r Aelodau gadarnhau eu manylion ar restr diddordeb y Cyngor.*

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion yr 8fed o Dachwedd yn gywir ac eiliodd Gwyn Roberts.

4.2 **Materion yn codi –**

4.2.1 **Dŵr yr Eifl –** Cafwyd cyfarfod safle gyda JO, GR a'r swyddogion perthnasol o'r Cyngor Sir yn bresennol. Ymddengys nad yw'r ffordd/llwybr mewn golwg yn rhan o'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus. Gan hynny mae'r Cyngor Sir am geisio darganfod pwy yw'r perchnogion ac yna cysylltu â'r Cyngor Cymuned. Nodwyd ei bod yn bwysig cysylltu gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am yr ardal 'SSSI' cyn ymgymryd â gwaith ar y safle.

4.2.2 **Gor-yrru yn Llithfaen –** Adroddwyd fod y Rhingyll Geraint Williams wedi hysbysu'r Clerc y byddai yn cychwyn gweithgareddau yn Llithfaen ganol Tachwedd 2016. Daeth llythyr i law gan riant o Lithfaen yn nodi pryder ynglyn a'r nifer sydd ddim yn cadw at y cyfyngiad cyflymder yn y pentref. Mae'n gofyn i'r Cyngor Cymuned weithio i geisio datrys y broblem a rhoi pwysau ar y Cyngor Sir a'r Heddlu i wneud 'run modd. *Y Clerc i ymateb i'r llythyr a chylchredeg copi ohonno i'r Heddlu a'r Cyngor Sir.*

4.2.3 **Ymchwiliad Strategol i 'Strategaeth Newydd y Gymraeg' -** Adroddodd y Clerc ei fod yn parhau i gadw golwg am gyfle i'r Cyngor gyfrannu i'r ymchwiliad.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

4.2.4 **Ceisiadau am gyfraniad ariannol –** *Y Clerc i ddelio a'r ceisiadau sydd ddim yn lleol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.*

4.2.5 **Archwilio/Cyfrifon –** Adroddoddd y Clerc nad yw adroddiad yr Archwilwyr Allannol ar gyfer 14/15 i law eto. Mae wedi cysylltu â hwy ar y ffôn ac addawyd y byddant ar gael yn fuan. Gan nad yw'r wybodaeth yma ar gael ni all BDO (yr Archwilwyr Allannol ar gyfer 15/16) orffen eu hadroddiad hwythau.
Penderfynwyd gwahodd John Roberts i fod yn Archwiliwr Allanol ar gyfer y flwyddyn 16/17. *Y Clerc i gysylltu ag o*.

5. **Mabwysiadu Rheolau Sefydlog Newydd –** Cyflwynwyd y Rheolau Sefydlog a adolygwyd yng nghyfarfod yr 8fed o Dachwedd i'w hystyried ar gyfer eu mabwysiadu.

   Cynigiodd Gwyn Roberts i'r Rheolau Sefydlog hyn gael eu mabwysiadu ac eiliwyd y cynnig hwnnw gan John Owen. Roedd pawb yn cytuno â'r cynnig. Gan hynny maent bellach wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol.

6. **Trafod a Mabwysiadu Rheolau Ariannol**

   Adolygwyd y Rheolau Ariannol drafft a gyflwynwyd i'r Cyngor trwy ddefnyddio gliniadur gyda'r ddogfen wedi'i chwyddo i sgrîn fwy fel y gallai pawb ei gweld. Gweithredwyd ar unrhyw ddiwygiadau a gytunwyd arnynt ar y pryd wrth fynd trwy'r ddogfen.

   Cynigiodd Gwilym Williams i'r Rheolau Ariannol hyn gael eu mabwysiadu ac eiliwyd y cynnig hwnnw gan Gwyn Roberts. Roedd pawb yn cytuno â'r cynnig. Gan hynny maent bellach wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol.

   Yn ogystal cynigiodd Gwilym Williams y dylai'r Cyngor Cymuned gadarhau penodiad y Clerc fel Swyddog Ariannol Cyfrifol. Eiliwyd y cynnig gan Griff Jones. Roedd pawb yn cytuno â'r cynnig a chadarnhawyd y penodiad.

7. **Canolfan Llithfaen** –

   Mae'r Rheolau Ariannol a fabwysiadwyd yn y cyfarfod hwn yn cynnwys y cymal canlynol:

   *'14.5 Ni chaiff unrhyw eiddo real (buddiannau mewn tir) ei brynu na'i gaffael heb awdurdod y cyngor llawn. Ym mhob sefyllfa, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r cyngor ar werth a chyflwr archwiliedig yr eiddo (gan gynnwys materion fel caniatadau cynllunio a chyfamodau) ynghyd ag achos busnes llawn (gan gynnwys lefel ddigonol o ymgynghori gyda'r etholwyr).'*
   Trafodwyd y cymal hwn wrth adolygu'r ddogfen o flaen llaw a phenderfynwyd ei adael i mewn.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc yn rhoi opsiynau o ran y Cyfreithwyr i'w penodi i gynrychioli'r Cyngor ynghyd â'r briff ar eu cyfer. Penderfynwyd rhannu'r adroddiad â Phwyllgor y Ganolfan gan ofyn am eu sylwadau ar gyfer cyfarfod y Cyngor Cymuned ar y 10fed o Ionawr.

Mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau fod y brydles ddrafft ar gael yn gymraeg neu saesneg.

8. **Mynwent Pistyll –** Mae rhan o fynwent Eglwys Pistyll o dan berchnogaeth y Cyngor Cymuned. Tynodd y Clerc sylw'r Cyngor at becyn o ganllawiau ar reoli mynwentydd ac esiampl o Arolwg Iechyd a Diogelwch. Nid yw'r Clerc yn gyfrifol am reoli'r fynwent. *Cyn penderfynu ar y cam nesaf penderfynwyd fod GR am wneud ymchwil pellach*.

9. **Ceisiadau Cynllunio** - Dim

10. **Gohebiaeth**

10.1 Tynwyd sylw'r Cyngor at rifyn diweddaraf 'Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru'

10.2 **Biniau Halen** – Derbynwyd cadarnhad o gostau cyflenwi halen i'r biniau halen ym Mhlwyf Pistyll ar gyfer 2017/18.

10.3 **Cynnal Llwybrau Cyhoeddus** – Daeth cais i law i gadarnhau bwriadau'r Cyngor Cymuned o ran y trefniant ad-daliadau cynnal llwybrau'r plwyf ar gyfer 2016/17. *Y Clerc i ofyn am fwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf. .*

10.4 **Etholiadau Cyngor Cymuned 2017** – Daeth gwybodaeth cyllidebol i law ar gyfer yr etholiadau Cynghorau Cymuned sydd i'w cynnal ar y 4ydd Mai,2017. *Y Clerc i ymgorffori'r amcangyfrifon i ragolygon 2017/18.*

10.5 **Anogaeth i unigolion i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr** – Derbynwyd wybodaeth am ymgyrch Cyngor Gwynedd. Esbonwyd fod Llythyr Llithfaen yn gwahodd ymgeiswyr.

10.6 **Cyfarfod Pwyllgor Ardal Un-Llais 14 Rhagfyr** – Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y 16 Medi, 2016 a thynwyd sylw'r Cyngor at y cyfarfod nesaf ar y 14 Rhagfyr, 2016.

Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347




11**. Cyllid**

11.1 **Archwilio/cyfrifon 14/15 a 15/16 –** *Gofynwyd i'r Clerc holi os y gall John Roberts weithredu fel Archwiliwr Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben Mawrh 2017.*

11.2 **Trafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf**:

Derbyniadau: Dim

Taliadau: £195.48 - Hysbysfwrdd
£684.53 – Ôl dâl Clerc
£100.00 – Cyflog Clerc - Hydref
£103.37 - Costau gweinyddol

Balans cyfrif cyfredol : £3138.48

Balans Cyfrif cadw: £2743.15

Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -
£100.00 – Cyflog Clerc
£200.00 - Roger Owen – ail doriad mynwent Pistyll
£150.00 – Pwyllgor Cae Chwarae
£17.07 – HM Revenue & Customs – Yswiriant Cenedlaethol 15/16

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 10fed o Ionawr am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347